YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor

12/10/18

Annwyl Riant,

Cwrs Preswyl Anturus Bl.3 a 4 2019: Gwersyll Glan-llyn

Mis Mai nesaf rydym yn trefnu taith i Wersyll yr Urdd Glan ar gyfer disgyblion Bl 3 a 4 rhwng **2il a 3ydd o Fai 2019.** Mae'n arferiad ganddom bellach ers nifer o flynyddoedd i fynd â phlant Blwyddyn 3 a 4 ar gwrs preswyl ac maent yn cael amser gwych a phrofiadau gwerth chweil bob tro. Nid yw'n bosib i fynd i Rhyd Ddu eleni gan fod y dosbarth yn rhy fawr.

Bydd y disgyblion yn cael cyfle i brofi gweithgareddau megis dringo, canŵio, cyfeiriannau, disgo, rhwyfo, adeiladu rafft, bowlio 10, bingo, cwis, gemau potes, nofio a llawer iawn mwy.

Mae'r pris eleni yn £99 sydd yn cynnwys

- Rhaglen lawn o weithgareddau(gweler uchod)
- Rhaglen o weithgareddau gyda'r nos
- Prydau bwyd / Byrbrydau / brecwast
- Cludiant
- Llety en suite

Rydym fel ysgol yn gorfod sicrhau lle gyda Swyddfa'r Urdd **cyn gynted a phosib gan bod llefydd yn dueddol o fynd yn gyflym iawn**. Gofynnwn yn garedig i chwi dalu blaendal o £40 ar Schoolcomms a thicio eich bod yn rhoi eich caniatâd arno erbyn dydd Llun 22ain Hydref 2018. **Os gwelwch yn dda, cysylltwch â ni os ydych angen rhagor o amser i dalu'r blaendal**.

Mae copi o delerau archebu ar gael ar: www.urdd.cymru/ynysmon

Mae'r daith yn agored i Aelodau'r Urdd. Os nad yw eich plentyn yn aelod o'r Urdd eto, gallwch ymaelodi ar eu gwefan www.urdd.cymru/ymuno cyn y daith.

Os gwelwch yn dda, cysylltwch â ni os oes ganddoch unrhyw gwestiwn.

Yn gywir,

Iwan Wyn Taylor

(Pennaeth)